Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Bodawen**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/09/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Bodawen yn Wasanaeth Cartref Gofal ar gyrion Porthmadog. Cariad Care Homes Ltd sy'n berchen ar y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol yw Ceri Roberts. Mae Cariad Care Homes yn darparu gwasanaeth ar gyfer hyd at 40 o oedolion y mae angen gofal nyrsio a/neu ofal personol arnynt.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae Cartref Gofal Bodawen yn cynnig amgylchedd cyfeillgar a chartrefol i bobl. Roedd y bobl a'u perthnasau yn fodlon iawn â'r gofal a gafwyd yn y cartref. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith bob dydd ac yn teimlo eu bod yn cael eu galluogi i roi gofal da. Cynhaliwyd yr amgylchedd i safon dda ac mae cynlluniau pellach ar gyfer gwelliannau a gwaith cynnal a chadw i du allan yr adeilad yn mynd rhagddynt.

### 2. Gwelliannau

Hwn oedd yr arolygiad ôl-gofrestru cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Iechyd a Diogelwch o ran ffenestri'r llawr cyntaf a lloriau uwch.
- Mae angen diweddaru'r trefniadau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer y rheolwr.
- Dileu gwybodaeth bersonol/clinigol o ddrysau'r ystafelloedd ymolchi.
- Mae pedair ystafell wely a rennir yn y cartref sy'n uwch na'r lefel a ganiateir gan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.

## 1. Llesiant

Gall y bobl ddylanwadu ar eu gofal bob dydd. Gwelsom fod cynlluniau personol y bobl yn canolbwyntio ar yr unigolyn i ryw raddau a'u bod yn nodi hoff bethau a chas bethau'r bobl. Gwnaethom argymell y dylid ychwanegu mwy o fanylion at gynlluniau'r bobl er mwyn adlewyrchu'r arferion a ffafriwyd ganddynt a chynnig cyfarwyddyd pellach i'r staff o ran dulliau gofal y bobl. Fodd bynnag, gwelsom yn ymarferol fod y staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu tawelu meddyliau'r bobl drwy ddefnyddio arferion cyfarwydd. Gwelsom y bobl yn cael eu trin mewn ffordd gynnes a pharchus a dywedodd y teuluoedd wrthym fod y staff yn garedig. Roedd y Datganiad o Ddiben ar gael i'r teuluoedd ei ddarllen ac roedd yn esbonio'r gwasanaethau a gynigir i'r bobl yn y cartref, y strwythur rheoli a strwythur y staff a phwy i gysylltu â nhw pe byddai angen iddynt drafod anghenion gofal neu pe byddai ganddynt unrhyw bryderon. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn cynnal archwiliad adolygu ansawdd a oedd yn ystyried barn preswylwyr, teuluoedd a'r staff. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu defnyddio i lywio cynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Roedd anghenion iechyd y bobl yn cael eu monitro er mwyn sicrhau eu llesiant ac roedd staff yn manteisio ar adolygiadau a chyngor proffesiynol yn ôl yr angen, a hynny mewn ffordd amserol. Roedd croeso i deuluoedd ymweld â'u perthnasau ac roedd ardaloedd tawel ar gael yn y cartref i'r bobl dreulio amser gydag ymwelwyr. Gallai'r bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau a oedd yn bwysig iddynt. Roedd cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar gael i'r bobl. Caiff amgylchiadau unigol y bobl eu hystyried.

Caiff llesiant emosiynol y bobl ei ystyried. Mae'r bobl yn cael eu hannog i fod mor weithgar â phosibl. Roedd gan y gwasanaeth unigolyn penodol a oedd yn gyfrifol am weithgareddau a oedd yn darparu calendr wythnosol o ddigwyddiadau i'r bobl a gallai'r bobl a oedd yn cael gofal yn eu hystafelloedd hefyd fanteisio ar weithgareddau a chyfleoedd i ymgymryd â'u diddordebau. Roedd y bobl yn cael eu cynnwys mewn tasgau cynnal a chadw a garddio yn y cartref os oeddent am wneud hynny. Roedd gan y gwasanaeth fws mini y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwibdeithiau i'r preswylwyr. Caiff y bobl eu galluogi i fod yn weithgar ac i gael eu hysgogi.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a chânt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd y bobl nad oedd ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd yn ddarostyngedig i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau priodol am unrhyw ddigwyddiadau a allai beryglu hawliau a llesiant y bobl mewn ffordd amserol. Roedd gan y gwasanaeth bolisi chwythu'r chwiban i'r staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn effeithio ar ofal diogel a phriodol y bobl. Nododd pob un o'r preswylwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael ei amddiffyn rhag niwed yn yr arolwg o'r adolygiad ansawdd a gynhaliwyd gan yr unigolyn cyfrifol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at y rheolwyr ag unrhyw bryderon. Mae'r gwasanaeth yn ystyriol o hawliau a diogelwch y bobl.

## 2. Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir yn y ffordd a ddymunant. Roedd cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn i ryw raddau ond gallent fod yn fanylach o ran hanes y bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn gallu cefnogi'r bobl mewn ffordd gyfeillgar a sensitif a'u bod yn ymwybodol iawn o'u hanghenion. Nodwyd awyrgylch cynnes a theuluol ym Modawen. Dywedodd preswylydd wrthym, "*Its fine here, I've settled in well, the food is good.*" A dywedodd preswylydd arall, *"They are brilliant, very good and kind."* Gwelsom fod yr asesiadau risg a oedd yn rhan o gofnodion gofal personol y bobl yn gyfredol. Roedd y trefniadau ar gyfer monitro iechyd yn dda ac roedd atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel y meddyg teulu a'r deietegydd mewn ffordd amserol. Dywedodd aelod o deulu un person wrthym fod y cyfathrebu gan y cartref am ofal ei berthynas yn dda. Dywedodd wrthym hefyd, *"They are very good, kind, excellent care here nothing to complain about."* Gwelsom sawl cerdyn diolch yn diolch i'r staff a'r rheolwr am eu gofal caredig ac am wneud i'r preswylwyr a'u teuluoedd deimlo'n gartrefol, gydag un enghraifft yn nodi, "*I can only compliment the manager and staff on their care, a real sense of caring for a person as a friend rather than a patient."* Clywsom y staff a'r preswylwyr yn sgwrsio â'i gilydd yn Gymraeg ac roedd dewisiadau'r bobl o ran eu dewis iaith hefyd yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn a chynhesrwydd yn y cartref.

Mae'r bobl mor weithgar ag y gallant fod. Mae unigolyn penodol wedi'i gyflogi ar gyfer gweithgareddau yn y cartref. Gall nodi diddordebau'r bobl a chynnig gweithgareddau priodol. Mae hefyd yn ymweld â'r bobl sy'n cael gofal yn eu hystafelloedd ac yn cynnig gweithgareddau iddynt fel paentio, crefftau, darllen a gwylio ffilmiau. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys chwarae boccia, bingo, coginio, garddio ac mae rhai o'r bobl yn hoffi helpu'r swyddog cynnal a chadw â thasgau syml. Gwelsom boster yn hysbysebu ymweliadau gan gantorion a chorau ysgol. Mae bws mini ar gael er mwyn mynd â'r preswylwyr ar wibdeithiau. Gwelsom y bobl yn mwynhau gwylio'r rygbi yn y lolfa. Mae'r bobl yn cael budd o amrywiaeth eang o weithgareddau i'w helpu i gymdeithasu ac i ysgogi eu meddwl.

Mae'r bobl yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom fod hawliau'r bobl yn cael eu hamddiffyn a'u bod yn cael eu hatgyfeirio at y tîm diogelu oedolion agored i niwed fel y bo'n briodol. Gallai'r bobl na allent siarad drostynt eu hunain neu nad oeddent yn meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal gael gafael ar eiriolwr annibynnol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y bobl na allent adael y cartref ar eu pen eu hunain yn ddarostyngedig i Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a oedd yn cael eu rhoi ar waith a'u diweddaru mewn ffordd amserol. Roedd yr unigolyn cyfrifol yn monitro marcwyr ansawdd gofal fel cyfraddau cwympo a briwiau gwely er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal boddhaol. Roedd y rheolwyr yn cynnal hapwiriadau er mwyn sicrhau bod y bobl yn derbyn safonau gofal cyson yn ystod y dydd a gyda'r nos. Roedd gan y cartref bolisi chwythu'r chwiban er mwyn galluogi staff i roi gwybod am arferion gwael. Caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn yn y cartref.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael budd o fyw mewn cartref sy'n cefnogi eu canlyniadau personol. Roedd yr adeilad wedi cael ei uwchraddio a'i gynnal a'i gadw i safon uchel. Roedd cynlluniau pellach ar y gweill i baentio, cladio a chynnal a chadw tu allan yr adeilad. Roedd gwaith wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â'r toiled ar y llawr gwaelod lle y gosodwyd llawr a chladin newydd, mae ystafell y gawod ar y llawr cyntaf wedi'i hadnewyddu, a gosodwyd heuldy a llawr newydd y tu ôl i'r cartref. Roedd boeler nwy newydd wedi cael ei brynu a allai hefyd ddarparu gwres a dŵr poeth wrth gefn. Roedd dyfeisiau codi wedi'u hatodi i'r nenfwd a charpedi newydd wedi cael eu prynu ar gyfer rhai ystafelloedd. Gwelsom fod y bobl yn gallu personoli eu hystafelloedd ag eitemau a oedd yn bwysig iddynt. Roedd dewis o lolfeydd i'r bobl ymlacio ynddynt, gyda rhai ohonynt yn llai ac yn dawelach os byddai'n well gan y bobl gael preifatrwydd neu dreulio amser gyda'u hymwelwyr. Roedd ardal deras ar gael y tu allan er mwyn i'r bobl fwynhau tywydd braf a garddio. Roedd y cartref yn lân ac yn daclus, roedd y gegin wedi cael sgôr iechyd yr amgylchedd o 5, sef y sgôr uchaf bosibl. Roedd pedair ystafell wely a rennir yn y cartref sy'n uwch na'r lefel a ganiateir gan gofrestriad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod pobl yn preswylio yn yr ystafelloedd hyn ar hyn o bryd, ond cyn gynted ag y byddent yn dod yn wag, y byddai newidiadau yn cael eu gwneud er mwyn cydymffurfio â'r cofrestriad o dan y Ddeddf. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n amddiffyn eu diogelwch cyn belled ag y bo'n bosibl. Roedd archwiliadau iechyd a diogelwch a thân yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd adroddiad y swyddog tân yn dda ac yn argymell y dylid gosod drws newydd wrth ymyl y lifft ar y llawr cyntaf. Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi ymdrin â hyn. Roedd y cartref yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â diogelwch, roedd y drws yn cael ei gloi a gofynnwyd i bobl lofnodi pan fyddent yn dod i mewn i'r adeilad ac yn ei adael. Roedd ystafelloedd y bobl yn cael eu cadw'n daclus ac nid oedd unrhyw beryglon baglu. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r stoc. Roedd gwybodaeth bersonol y bobl yn cael ei chadw'n ddiogel mewn swyddfeydd y gellid eu cloi, felly hefyd gofnodion y staff a gwybodaeth sensitif arall. Gwelsom bosteri ar gefn drysau'r ystafelloedd ymolchi en-suite a oedd yn nodi gwybodaeth am hufenau a chynhyrchion ymataliaeth i'r bobl. Gwnaethom argymell y dylid cadw'r wybodaeth hon yn fwy cyfrinachol er mwyn parchu urddas y bobl a chydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data. Ni welsom gyfyngwyr allanol ar gyfer ffenestri'r llawr cyntaf. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod cyfyngwyr wedi'u gosod ar y tu mewn i'r ffenestri, bod y ffenestri wedi cael eu profi a'u hasesu o ran risg a'u bod yn anodd i'w hagor. Awgrymwyd gennym y dylai ddarllen cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi risgiau i iechyd a diogelwch ac yn eu lliniaru gymaint â phosibl.

## 4. Arwain a Rheoli

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau. Dangosodd cofnodion hyfforddiant a goruchwyliaeth y staff eu bod yn cael digon o hyfforddiant a goruchwyliaeth fel y dynodir mewn deddfwriaeth. Roedd y staff yn cael hyfforddiant mewn pynciau gorfodol a phynciau ychwanegol a oedd o ddiddordeb i'w helpu i ymgymryd â'u rolau beunyddiol. Er enghraifft, roedd hyfforddiant gofal dementia wedi'i drefnu ar gyfer y staff a oedd yn ymdrin ag effeithiau dementia ar y synhwyrau. Roedd angen diweddaru trefniadau goruchwylio ac arfarnu'r rheolwr ychydig a gwnaethom argymell y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym y byddai'n ymdrin â hyn. Gwelwyd cofnodion cyfarfodydd staff, roedd y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth ac yn cael cyfle i fynegi eu barn. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, "*best job I've had, very welcoming, good induction and training for the job."* Dywedodd aelod arall o staff wrthym, "*It's a good place to work, plenty of training and support."* Caiff y bobl gymorth gan staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol.

Yn gyffredinol, caiff y gwasanaeth ei lywodraethu gan ddarparwyr y gwasanaeth drwy adolygiadau sicrhau ansawdd. Roedd ymweliadau ac adroddiadau'r unigolyn cyfrifol yn gyfredol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Roedd safbwyntiau'r preswylwyr a'r staff yn cael eu hystyried a'u defnyddio i lywio'r broses o gynllunio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Gwelsom fod archwiliadau wedi'u cynnal ar agweddau allweddol ar y gwasanaeth, er enghraifft, roedd archwiliad meddyginiaethau wedi'i gynnal. Roedd y canlyniadau cyffredinol yn dda, a gwnaed rhai sylwadau o ran arferion yr ymdriniwyd â nhw ar unwaith ag aelodau o'r staff. Caiff y bobl fudd o wasanaeth sy'n gwella'n barhaus.

Mae'r arferion cyflogaeth yn foddhaol. Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ffeiliau'r staff a gwelsom eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Roedd gwiriadau boddhaol wedi'u cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion diamddiffyn. Roedd aelodau newydd o'r staff yn dilyn rhaglen sefydlu fewnol er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r adeilad a gofynion y rôl. Roedd y rhaglen sefydlu yn dilyn fframwaith Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer sefydlu yr ystyrir ei fod yn cynnig arferion da. Roedd gan y gwasanaeth gyfran uchel o staff a oedd yn siarad Cymraeg ac roedd yn mynd ati mewn ffordd weithredol i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Roedd y staff newydd yn cael cyfnod prawf er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y swydd. Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sydd wedi cael gwiriadau cyflogaeth boddhaol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r cartref gael ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y canlynol er mwyn annog canlyniadau da i'r bobl:

- Rydym yn awgrymu y dylai'r darparwr sicrhau bod cyfyngwyr ar ffenestri'r llawr cyntaf a lloriau uwch yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch y bobl.
- Mae angen diweddaru'r trefniadau ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r rheolwr yn unol â gofynion y corff llywodraethu ar gyfer nyrsio.
- Dylid tynnu'r arwyddion personol / clinigol oddi ar ddrysau'r ystafelloedd ymolchi er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a sicrhau cyfrinachedd.
- Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r lefelau a ganiateir gan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol o ran ystafelloedd a rennir.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o raglen arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Arolygwyd y gwasanaeth o dan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth ar 20 Medi 2019 rhwng 12:30pm a 5:30pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr, tri aelod o'r staff, perthynas, dau berson sy'n byw yn y cartref.
- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI, fersiwn 2). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.
- Aethom o gwmpas yr adeilad a'r cyfleusterau, gan gynnwys detholiad o ystafelloedd y bobl.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion a gedwir gan y gwasanaeth cofrestredig, gan ganolbwyntio ar: y Datganiad o Ddiben, ymweliadau ac adroddiadau'r unigolyn cyfrifol, ffeiliau tri aelod o'r staff, cynlluniau personol a dogfennau cysylltiedig pedwar person, adroddiadau cynnal a chadw a thân, archwiliad fferyllol, cofnodion cyfarfodydd staff, cofnodion hyfforddi a goruchwylio staff.

Mae AGC yn ymrwymedig i hyrwyddo a pharchu hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Wrth gynnal yr arolygiad hwn, ein nod oedd cynnal hawliau dynol cyfreithiol y bobl. https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-04/180409humanrightscy.pdf.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cariad Care Homes Ltd** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Ceri Roberts** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **40** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **9 Tachwedd 2018.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **20 Medi 2019.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/01/2020